Elysium Healthcare



# Reene House

Gwasanaeth preswyl gyda nyrsio

Reene Court, Llyswyry,
Casnewydd, Cymru, NP19 0RJ

**Ffôn: 01633 666 828**

**E-bost: reenehouse@elysiumhealthcare.co.uk**



## Croeso i Reene House

Mae Reene House yn darparu gofal i unigolion sy'n wynebu heriau amrywiol, gan hyrwyddo diagnosau salwch meddwl, clefyd Huntington, sglerosis ymledol, a sbectrwm o gyflyrau sy'n cyd-ddigwydd fel cymhlethdodau niwrolegol. Mae'r hafan gynhwysol hon yn rhoi cymorth i'r rhai sydd â diagnosis deuol, gan gynnwys anableddau dysgu ysgafn, ac unigolion sydd â chyflyrau iechyd corfforol hirdymor. Yn Reene House, mae gofal pwrpasol a chymorth diwyro ar gael ar gyfer taith unigryw pob unigolyn, ac mae'n datblygu cymuned o gadernid a grymuso.






## Trosolwg

Gwasanaeth preswyl ag 16 o welyau yw Reene House, ac mae ar gael i oedolion o bob rhywedd sydd â diagnosis iechyd meddwl gweithredol. Mae'r gwasanaeth ar gael ar gyfer y rheini nad oes angen gwasanaeth iechyd meddwl i gleifion mewnol arnynt mwyach, ond sydd angen rhagor o ofal a mewnbwn nad oes modd ei ddarparu mewn llety â chymorth. Yn Reene House, mae ein staff ymroddedig yn mynd yr ail filltir, gan gynnig cymorth diwyro i unigolion sydd angen cymorth ychwanegol yn eu trefn ddyddiol, gan gynnwys tasgau sylfaenol fel ymolchi, gwisgo a rheoli meddyginiaethau'n drylwyr. Mae llawer o adnoddau ar gael yn ein cartref gofal cymunedol gyda nyrsio, ac mae'n ymdrechu i fodloni a rhagori ar safonau gwasanaeth a gofal personol eithriadol. Yma, mewn awyrgylch cynnes a chroesawgar, rydym yn datblygu mwy na dim ond lle i fyw; rydym yn creu cartref a hafan lle mae gofal gwirioneddol a chyfeillgarwch yn diffinio ein hymrwymiad i feithrin amgylchedd cyfforddus a chartrefol i bawb sy'n cerdded drwy'r drysau.







## Y Model

Mae'r gwasanaeth yn darparu lleoliad sy'n helpu unigolion i fyw bywyd llawn a gwerthfawr. Mae'r staff yn helpu pobl i fod mor annibynnol â phosibl. Mae'r dewis gorau o weithgareddau bywyd bob dydd ar gael, ac mae'r tîm yn croesawu amrywiaeth a photensial unigryw pob unigolyn. Mae'r gwasanaeth yn darparu amgylchedd diogel gyda staff nyrsio a staff cymorth ymroddedig sy'n gweithio i sicrhau bod dinasyddiaeth a chredoau diwylliannol pob unigolyn yn cael eu cynnal. Darperir pob pryd o fwyd, gan gynnwys gofynion dietegol arbennig.





## Gweithgareddau a Digwyddiadau Cymdeithasol

Yn Reene House, ceir posibiliadau diddiwedd i gyfoethogi eich llesiant corfforol, meddyliol a phersonol; mae rhywbeth at ddant pawb, gan gynnwys ymarfer corff ysgogol ac ymlaciol, hobïau difyr, hyfforddiant ysgogol ar gyfer yr ymennydd, a gweithgareddau gwych yn yr awyr agored. Mae ein cymuned fywiog yn cynnig amrywiaeth eang o weithgareddau grŵp, cyfleoedd hunanofal, a thasgau dyddiol i'ch cadw'n llawn egni ac ysbrydoliaeth. Hefyd, rydym yn trefnu teithiau addysgol bythgofiadwy, gwyliau i'ch adfywio, a theithiau antur cyffrous. Gyda pherfformiadau byw bob mis, bydd eich taith yn Reene House yn gwbl anhygoel.

## Yr Amgylchedd

Mae yma 16 o ystafelloedd en-suite, sef chwech ystafell ar y llawr gwaelod a deg ystafell i fyny'r grisiau. Mae pob ystafell wely yn cynnwys ystafell eistedd, ac mae'r preswylwyr yn cael eu hannog i bersonoli eu hystafelloedd gyda'u heiddo eu hunain. Gall y preswylwyr hefyd ddefnyddio lolfa gymunedol, ystafell fwyta, ystafell haul a gardd. Mae Reene House yn hygyrch ac mae lifft ar gael yno.

## Lleoliad

Mae'r gwasanaeth mewn lleoliad canolog yn ninas gadeiriol Casnewydd. Mae Parc yr Onnen Ddu gerllaw, yn ogystal â llawer o siopau a mannau addoli lleol gwahanol. Dim ond taith fer i ffwrdd o Ganolfan Siopa Rhodfa'r Brodyr y mae Reene House, ac mae siopau a bwytai yno i bobl gael mwynhau.

## Meini prawf derbyn

- Dynion a menywod 18 oed neu'n hŷn
- Wedi cael diagnosis o salwch meddwl, clefyd Huntington, a Sglerosis Ymledol (MS)
- Cyflwyniadau cyd-forbidrwydd, fel cyflyrau iechyd corfforol hirdymor neu niwrolegol
- Diagnosis deuol, gan gynnwys anabledd dysgu ysgafn
- Gorchmynion Triniaeth Gymunedol neu Anffurfiol, neu ryddhad amodol



Elysium Healthcare

**Mae'r wybodaeth hon ar gael mewn gwahanol ieithoedd, Braille, fformat Hawdd ei Ddeall ac Iaith Arwyddion Prydain ar gais.**

I gael rhagor o wybodaeth, i drefnu ymweliad, neu i wneud atgyfeiriad, ffoniwch ein llinell atgyfeirio 24 awr ar: **0800 218 2398** neu e-bostiwch: **referrals@elysiumhealthcare.co.uk**

I weld ein taith fideo, ewch i **elysiumhealthcare.co.uk**

Part of Ramsay Health Care

1649/0324